




BuRN-Tool

Cywirdeb diagnostig adnodd rhagweld clinigol (BuRN-Tool) i nodi camdriniaeth sy'n gysylltiedig â llosgiaidau mewn plant

Crynodeb o'r Prosiect

V1.0



Teitl yr Astudiaeth: Cywirdeb diagnostig adnodd rhagweld clinigol (BuRN-Tool) i nodi camdriniaeth sy'n gysylltiedig â llosgiadau mewn plant

Beth yw'r BuRN-Tool?

Mae'r BuRN-Tool yn Adnodd Rhagweld Clinigol i helpu clinigwyr i nodi camdriniaeth mewn plant sy'n cael eu gweld yn yr Adran Achosion Brys gyda llosgiadau.

Mae'r BuRN-Tool yn Adnodd Rhagweld Clinigol wedi'i ddilysu sy'n cynnwys saith o ddangosyddion syml. Mae gan bob un sgôr, a phan gaiff y rhain eu rhoi at ei gilydd, maent yn gwneud cyfanswm rhwng 0 a 12. Mae sgôr o ≥ 3 yn cynyddu'r tebygolrwydd o gam-drin (esgeulustod neu gam-drin corfforol), ac yn ysgogi'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i ddilyn gweithdrefnau diogelu plant lleol.

Manteision i'r cyhoedd a chleifion

Mae o leiaf 1 ym mhob 10 plentyn sydd â llosgiadau yn eu dioddef o ganlyniad i gamdriniaeth. Mae'r BuRN-Tool yn Adnodd Rhagweld Clinigol syml y gellir ei ddefnyddio yn hawdd mewn Uned Achosion Brys er mwyn nodi'r plant hyn fel y gellir darparu cymorth iddyn nhw a'u teuluoedd i wella eu hiechyd a'u lles yn y dyfodol. Os yw'n effeithiol, gall yr adnodd hwn gael ei gyflwyno'n eang ar draws y GIG. Mae cam-drin plant ac esgeulustod yn 'Brofiadau Plentynod Andwyol' a chânt eu cysylltu'n gryf â thrais yn y dyfodol ac iechyd andwyol a chyfleoedd gwael gydol oes. Bydd dyfodol iechyd a lles y cyhoedd yn elwa os caiff Profiadau Plentynod Andwyol eu nodi ac os gweithredir arnynt yn gynnar.

Nod yr Astudiaeth

Ymchwilio i gywirdeb diagnostig a defnyddioldeb adnodd BuRN-Tool. Bydd yr astudiaeth yn gwerthuso p'un a yw'r BuRN-Tool yn gwella'r broses o adnabod plant y mae gofyn eu diogelu drwy Ofal Cymdeithasol Plant.

Mae gan yr astudiaeth gymeradwyaeth foesebol lawn (Moeseg: 15_WA_0259 a CAG: 15.CAG.0203) a chymeradwyaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant ar gyfer canolfannau yn Lloegr i gasglu data ar ganlyniadau Gofal Cymdeithasol Plant. Rydym ni wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol a fydd yn cymryd rhan yn yr astudiaeth i lywio ac i drafod y ffordd orau o gasglu data canlyniadau ymchwil a thrafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am yr astudiaeth.

Cynllun Ymchwilio

Astudiaeth cyn ac ar ôl dwy flynedd o hyd dan reolaeth mewn pum canolfan ymyrraeth. Bydd plant o chweched canolfan nad ydynt yn derbyn yr ymyriad yn gweithredu fel grŵp rheoli normadol i fonitro tueddiadau cefndirol dros amser.

Poblogaeth

Y boblogaeth darged yw plant<16 oed sy'n dod i'r Uned Achosion Brys gyda llosgiadau (ac eithrio tanau mewn cartrefi) Dros 9 mis, bydd clinigwyr yn y pum canolfan ymyrraeth a'r un ganolfan rheoli yn casglu data demograffig a chlinigol yn ystod asesiadau rheolaidd o tua 1000 o blant sy'n mynychu gyda llosg gan ddefnyddio asesiad clinigol safonedig; y BaSAT (Templed Asesu Llosgiadau a Sgaldiadau) cyn cyflwyno'r BuRN-Tool ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Ysbyty Brenhinol Gwent Casnewydd, Ysbyty Treforys Abertawe, Ysbyty Brenhinol Plant Bryste, Ysbyty Plant Birmingham, Ysbyty Cyffredinol Gogledd Manceinion ac Ysbyty Rochdale.

Ymyrraeth

Bydd y BuRN-Tool yn cael ei ychwanegu at y BaSAT¹ a'i roi ar waith gyda 1000 o blant eraill yn y pum canolfan ymyrraeth. Bydd y clinigwyr yn pennu cyfanswm sgôr ar gyfer pob plentyn ac yn cymryd y camau diogelu priodol. Bydd y ganolfan reoli normadol yn casglu data gan ddefnyddio'r BaSAT drwy gydol y cyfnod casglu data mewn ymgais i nodi tueddiadau sylfaenol annisgwyl dros amser.

Prif ganlyniad

Y prif ganlyniad fydd y camau diogelu a gymerir gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant (e.e. asesiad o dan y Ddeddf Plant (neu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yng Nghymru), neu atgyfeiriad ymlaen at asiantaeth arall i gael cymorth teulu).

Byddwn yn cymharu camau diogelu a gymerir gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant cyn ac ar ôl cyflwyno'r BuRN-Tool yn y pum canolfan ymyrraeth. Byddwn yn ceisio'r data hwn ar gyfer pob plentyn o gofnodion Unedau Achosion Brys ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant awdurdodau lleol chwe mis cyn ac ar ôl cyflwyno'r adnodd yn wreiddiol i Adrannau Achosion Brys.

Canlyniadau eilradd

Cywirdeb diagnostig adnodd BuRN-Tool a fesurir gan gamau a gymerir gan glinigwyr mewn perthynas â sgoriau BuRN-Tool unigol wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- trafod gyda chydweithiwr uwch
- atgyfeirio i ymwelydd iechyd
- trafod gyda thîm diogelu'r ysbyty neu
- cyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol Plant am asesiad.

Gwerthuso'r broses

Bydd data ansoddol yn cael ei gasglu gan rieni, staff Adrannau Achosion Brys, ymwelwyr iechyd a staff Gwasanaethau Cymdeithasol Plant am fanteision a chyfyngiadau'r adnodd BuRN-Tool mewn

¹ Kemp, A.M., Hollén L., Emond, A.M., Nuttall, D., Rea, D. a Maguire, S. (2018) Raising suspicion of maltreatment from burns: Derivation and validation of the BuRN-Tool. *Burns Cyfrol* 44, Rhifyn 2, tt.335–343. DOI: <https://doi.org/10.1016/j.burns.2017.08.018>

ymarfer clinigol. Bydd data ansoddol hefyd yn cael ei gasglu o ffynonellau ym maes gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol i archwilio p'un a ystyrir yr adnodd BuRN-Tool i fod yn fuddiol.

Tîm Prosiect BuRN-Tool



Yr Athro Alison Kemp
Athro Iechyd Plant
Prif Ymchwilydd:
Prifysgol Caerdydd
Ysgol Meddygaeth



Yr Athro Alan Emond
Athro Iechyd Plant
Cyd-Ymchwilydd
Prifysgol Bryste
Ysgol Meddygaeth Cymdeithasol a Chymunedol



Yr Athro Jonathan Scourfield
Athro mewn Gwaith Cymdeithasol
Cyd-Ymchwilydd
Prifysgol Caerdydd
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol



Dr Linda Hollen
Uwch Gydymaith Ymchwil
Ystadegydd
Prifysgol Bryste
Ysgol Meddygaeth Cymdeithasol a Chymunedol



Mrs Diane Nuttall
Prif Ymchwilydd
Cydymaith Ymchwil
Prifysgol Caerdydd
Ysgol Meddygaeth



Dr Verity Bennett
Cydymaith Ymchwil
Prifysgol Caerdydd
Ysgol Meddygaeth

Os hoffech ragor o wybodaeth anfonwch e-bost at: burnsresearch-admin@cardiff.ac.uk